OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2197 (Cy.157)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Tir Halogedig(Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *12 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 78C(8) i (10), 78E(6), 78G(5) a (6), 78L(4) a (5) a 78R(1), (2) ac (8) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**) a phob pŵ er arall sy'n galluogi'r Cynulliad yn y cyswllt hwnnw:

(**1**) 1990 p.43. Mewnosodwyd adrannau 78A i 78YC gan adran 57 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25). Gweler y diffiniad o “prescribed” yn adran 78A(9). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).